Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Partneriaeth Gymunedol Dysgu Castell-nedd Port Talbot
# Ffordd Theodore
# Port Talbot
# SA13 1SP

## Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/02/2013**

## Cyd-destun

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot boblogaeth o 137,392. Y dref fwyaf yw Castell-nedd sydd â phoblogaeth o 47,020, wedyn Port Talbot (35,633), Llansawel (7,186), Pontardawe (5,035), a Glyn-nedd (4,368). Mae mwyafrif y boblogaeth yn byw ar y gwastadedd arfordirol o amgylch Port Talbot a'r tir o amgylch yr Afon Nedd yng nghyffiniau Nedd. Mae'r ardaloedd uwchdirol yn cynnwys pump o gymoedd: Cwm Nedd, Cwm Dulais, Cwm Afan, Cwm Tawe a Chwm Aman Uchaf.

Ym Mawrth 2012, y gyfradd gyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd 60.2% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.7%. Y sectorau cyflogi mwyaf yn y Fwrdeistref Sirol yw Gweinyddu Cyhoeddus, Cyfanwerthu, Manwerthu, Cludiant, Gwestai a Bwyd, ac yna Cynhyrchu. Fodd bynnag, y gyfradd anweithgarwch yng Nghastell-nedd Port Talbot, sef 29.5%, yw'r uchaf yng Nghymru (22.9%).

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd lefel y cymwysterau sydd gan bobl 16-64 oed yng Nghastell-nedd Port Talbot yn Rhagfyr 2011 yn is na chyfartaledd Cymru ar draws pob lefel. Yn ychwanegol, nid oes gan 15.5% o'r grŵp oedran hwn unrhyw gymwysterau, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 12.3%.

Mae ychydig dros 15% o'r 91 o ardaloedd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011). Her fawr yw mynd i'r afael ag iechyd gwael. Mae'r cynllun Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer Castell-nedd Port Talbot (Mawrth 2011) yn nodi bod iechyd trigolion yn waelach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos. Mae cyfraddau strociau, clefyd coronaidd ac afiechydon anadlu yn uwch na'r cyfartaledd. Castell-nedd Port Talbot sydd â'r gymhareb uchaf ond un fesul poblogaeth o'r 22 o awdurdodau lleol o bobl sydd wedi'u cofrestru yn anabl.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, dywed 22% o bobl dros dair oed eu bod yn medru'r Gymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 26.3%. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn nodi bod ardaloedd o fewn y Fwrdeistref Sirol lle mae dros 60% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 2.4% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%. Mae mwy o sipsi deithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

### Rhwydwaith Dysgu Oedolion Castell-nedd Port Talbot

Mae'r rhwydwaith yn cynnwys ystod o sefydliadau sector cyhoeddus a gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;
- Coleg Castell-nedd Port Talbot;
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot;
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru;
- Adran Addysg Barhaus i Oedolion Prifysgol Abertawe; a
- Chanolfan Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru.

Caiff y cyfeiriad strategol ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn y Fwrdeistref Sirol ei oruchwylio gan weithrediaeth y Rhwydwaith Dysgu Oedolion, sy’n cynnwys Cyfarwyddwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Cyfarwyddwr Addysg, Dysgu Gydol Oes a Hamdden yr awdurdod lleol a Phennaeth Coleg Castell-nedd Port Talbot. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port yn Chwefror 2007.

Yn 2010-2011, roedd darparwyr yn yr ardal yn cyflwyno 4,479 o weithgareddau dysgu, wedi’u hariannu gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS). Roedd Coleg Castell-nedd Port Talbot yn gyfrifol am 80% o’r gweithgareddau hyn, ac roedd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn cyflwyno 11% o’r gweithgareddau hyn. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn cyflwyno 8% o’r gweithgareddau hyn a Choleg Cymunedol YMCA Cymru yn cyflwyno’r 1% sy’n weddill.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Bernir bod y bartneriaeth yn ddigonol oherwydd:

- bod lles dysgwyr yn dda;
- bod yr addysgu'n dda mewn ychydig dros hanner o'r sesiynau a welwyd;
- bod rheolaeth strategol yn helpu darparwyr i gydweithio'n dda;
- bod y bartneriaeth yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau arbenigol i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu;
- bod ethos da o gynhwysiant ar draws y ddarpariaeth, gyda thiwtoriaid a staff yn creu amgylcheddau dysgu cyfeillgar a chroesawgar;
- bod trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn dda ac yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol; a
- bod gan y bartneriaeth drefniadau da ar gyfer defnyddio adnoddau a sicrhau darpariaeth; yn benodol, mae cyfleusterau da gan y rhan fwyaf o ganolfannau cymunedol a ddefnyddir i gyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned, ac mae rhai ohonynt yn rhagorol.

Fodd bynnag:

- mae cyfraddau cwblhau llwyddiannus yn amrywio gormod rhwng gwahanol agweddau ar y ddarpariaeth;
- nid yw rheolwyr strategol yn defnyddio gwybodaeth am reoli perfformiad yn ddigon da i wella'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr neu i roi gwybod am ba mor dda y maent yn mynd i'r afael â'u blaenoriaethau;
- nid yw'r bartneriaeth yn asesu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn ddigon systematig, ac nid ydynt bob amser yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd o ganlyniad;
- mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer gwella ansawdd yn anfoddhaol;
- nid yw'r bartneriaeth wedi cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o angen ar lefel strategol;
- nid oes gan y bartneriaeth gynllun trosfwaol i wella safonau llythrennedd a rhifedd dysgwyr; a
- bernir bod y bartneriaeth yn darparu gwerth digonol am arian.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod yr arweinwyr uchaf yn y bartneriaeth wedi dangos ymrwymiad cryf i sicrhau dyfodol dysgu oedolion, ac o ganlyniad, mae'r bartneriaeth wedi cynyddu ei darpariaeth ers yr arolygiad diwethaf yn ystod cyfnod o grebachu ar draws y sector;

- bod partneriaid wedi gwella cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo ar draws y bartneriaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf;
- bod lefel uchel o ymddiriedaeth, ymrwymiad a chydweithrediad rhwng partneriaid;
- bod gan y ddau brif bartner, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Choleg Castell-nedd Port Talbot College – hanes da o arwain partneriaethau sy'n gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau ar gyfer dysgwyr;
- bod y cwricwlwm yn cael ei gynllunio'n effeithiol, gan gynnwys ystod eang o asiantaethau lleol;
- bod y bartneriaeth wedi rhoi strategaeth llais y dysgwr ac ymglymiad y dysgwr ar waith yn ddiweddar, sy'n helpu dysgwyr i chwarae rhan mewn cynllunio; a
- bod y bartneriaeth wedi rhoi trefniadau newydd ar waith i wella'r modd y mae'n monitro effaith ei chynllun datblygu ansawdd a'r ffordd y caiff ei roi ar waith.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfraddau cwblhau llwyddiannus ar gyfer yr holl ddysgwyr a gwneud yn siŵr bod yr holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd da;

A2 gwella ansawdd yr addysgu ar draws y bartneriaeth;

A3 gwella pa mor dda y mae tiwtoriaid a dysgwyr yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol i gynllunio, gosod nodau realistig a monitro cynnydd;

A4 gwella'r defnydd o wybodaeth am reoli perfformiad i godi'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac i arfarnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cyflawni ei blaenoriaethau ac yn rhoi gwerth am arian;

A5 gwella'r trefniadau ar gyfer dadansoddi a chynllunio strategol i fodloni anghenion dysgwyr, gan gynnwys codi safonau llythrennedd a rhifedd;

A6 gwella'r systemau ar gyfer asesu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr, gan wneud yn siŵr bod y dysgwyr hynny yn cael cymorth, a monitro'r cynnydd a wna dysgwyr sy'n cael cymorth; a

A7 gwella'r trefniadau ar gyfer monitro cyfle cyfartal ac amrywiaeth.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd tîm yn cynnwys hyd at bump o arolygwyr yn cynnal ymweliad ymhen rhyw flwyddyn, am dridiau, i fonitro cynnydd y rhwydwaith o ran rhoi argymhellion yr arolygiad ar waith. Bydd arolygwyr hefyd yn cynnal arsylwadau o addysgu a dysgu i arfarnu adroddiadau ar ddeilliannau dysgwyr.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar draws Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot, mae cyfraddau cwblhau llwyddiannus yn amrywio gormod o 72% i 93% rhwng y gwahanol fathau o ddarpariaeth. Er bod cyfraddau cwblhau cyrsiau ar gyfer yr holl ddarparwyr uwchlaw 90%, mae cyfraddau cyrhaeddiad mewn tua hanner y ddarpariaeth yn is nag ydynt mewn partneriaethau eraill.

At ei gilydd, bu tuedd o wella mewn cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo ar draws y bartneriaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae dysgwyr mewn rhaglenni Addysg Sylfaenol i Oedolion yn gwneud cynnydd cyson o ran gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae mwyafrif o ddysgwyr yn dilyn gormod o gymwysterau ar yr un lefel â'u hasesiad cychwynnol. Mae hyn yn arafu cyfradd eu cynnydd ac yn gohirio eu dilyniant i lefelau dysgu uwch. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn Addysg Sylfaenol i Oedolion yn ennill ystod dda o gymwysterau yn seiliedig ar gredydau. Mae'r rhain yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau mewn camau bach. Fodd bynnag, yn 2010-2011, nid oes digon o ddysgwyr yn ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer eleni yn dangos bod y duedd hon yn gwella.

Ar y cyfan, mae dysgwyr Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu eu medrau. Fodd bynnag, mae mwyafrif o ddysgwyr yn cymryd yn rhy hir i gwblhau nodau dysgu. Nid oes gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ar lefelau uwch gynlluniau dysgu defnyddiol ac mae nodau dysgu yn rhy gyffredinol a generig.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn rhaglenni teuluol yn datblygu eu medrau yn dda ac yn eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu eu plant. Fodd bynnag, mae rhai dysgwyr mewn rhaglenni teuluol ar lefel uwch na'r grŵp targed ar gyfer y cyrsiau hyn.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau dysgu oedolion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu medrau newydd, ac mae llawer ohonynt yn symud i lefelau astudio uwch. Fodd bynnag, mae rhai dysgwyr yn aros yn y ddarpariaeth yn rhy hir. Nid ydynt yn datblygu eu medrau mewn dysgu annibynnol yn ddigon da.

Ar draws y bartneriaeth ac ym mhob rhaglen, nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio eu cynlluniau dysgu unigol yn effeithiol; nid oes ganddynt dargedau campus a byr ac ni allant olrhain a mesur eu cynnydd eu hunain yn hawdd. Nid yw dysgwyr mewn llawer o ddosbarthiadau dysgu oedolion yn y gymuned yn datblygu ac yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol, yn gyson fel rhan o'u cwrs.

Mewn rhaglenni teuluol a dosbarthiadau SSIE, mae dysgwyr yn datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru yn dda. Fodd bynnag, mewn dosbarthiadau eraill, nid yw'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu datblygu digon.

## Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan yn eu dosbarthiadau yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'u cymell yn dda, yn gwella eu medrau ac wedi magu hyder ers dechrau eu cyrsiau. Maent yn gwrando ac yn cymryd rhan yn dda yn y dosbarth mewn grwpiau a pharau ac yn helpu ei gilydd i ddatrys problemau a gwella. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu agweddau da at gadw'n iach a diogel ac maent yn gadarnhaol tuag at eu hamgylchedd dysgu.

Mae llawer o ddysgwyr yn y sesiynau a arsylwyd yn cynyddu eu dealltwriaeth o'r modd y mae maeth a ffordd o fyw yn cyfrannu at iechyd da. Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau coginio yn dysgu creu prydau gan ddefnyddio cynhwysion iach. Serch hynny, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn ymwybodol o'r agenda byw yn iach.

Mae cyfraddau presenoldeb a phrydlondeb yn dda ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymdrechu'n dda i ddal i fyny â gwaith y maent yn ei golli pan fyddant yn absennol.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu lefelau newydd o hyder a medrau cyfathrebu, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae dysgwyr sy'n cael Cymorth i Fyw yn darparu gwasanaethau arlwyo ar gyfer nifer o weithgareddau cymunedol, gan gynnwys arlwyo ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus ac ennill cystadlaethau coginio lleol. Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau addysg sylfaenol i oedolion a dysgu oedolion yn defnyddio'r medrau y maent yn eu dysgu yn eu swyddi ac i helpu eu plant gyda llythrennedd a rhif. Er enghraifft, mae dysgwr mewn dosbarth Darllen yn Well yn cyfrannu'n dda at wasanaethau ysgol yn ysgol ei phlentyn ac yn arwain clwb darllen ar gyfer plant y tu allan i'r dosbarth. Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau coginio yn teimlo'n fwy hyderus i ddarparu lefel fwy soffistigedig o fwyd ac adloniant. Mae dysgwyr SSIE yn arbennig yn defnyddio eu medrau Saesneg mewn cyfathrebu yn y gymuned ehangach.

Mewn rhai dosbarthiadau, yn enwedig mewn dosbarthiadau iaith, nid yw dysgwyr yn datblygu eu medrau sgwrsio yn ddigon effeithiol o ganlyniad i niferoedd isel yn y grŵp. Ni all rhai dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau yn y coleg fanteisio'n llawn ar holl gyfleusterau'r coleg, ac mae hyn yn effeithio ar eu hunan-barch.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae darpariaeth y bartneriaeth yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr a'r gymuned yn dda. Mae'n rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae tua hanner y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar wella medrau hanfodol, iechyd a rhagolygon cyflogaeth. Mae ystod dda o ddysgu oedolion yn draddodiadol. Mae'r bartneriaeth wedi gweithio'n dda i helpu dysgwyr sy'n mynychu ychydig iawn o ddosbarthiadau hirsefydledig i gymryd cyfrifoldeb am drefnu eu gweithgareddau dysgu eu hunain.

Mae'r bartneriaeth yn effeithiol iawn wrth gyflwyno dysgu yn ardaloedd mwyaf difreintiedig yr awdurdod. O ganlyniad i dargedu da, mae'r awdurdod lleol yn recriwtio mwy o ddysgwyr gwrywaidd, dysgwyr o'r grŵp oedran 25-49 a dysgwyr sydd am wella eu medrau ar gyfer gwaith, o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn dda. Mae ystod eang o asiantaethau lleol yn cynllunio'n effeithiol gyda'i gilydd i gyflwyno dysgu. Er enghraifft, mae gweithwyr Cymunedau yn Gyntaf yn cynnal arolygon defnyddiol i roi gwybod i'r bartneriaeth am anghenion dysgwyr yn eu hardaloedd. Mae'r bartneriaeth hefyd yn gwneud defnydd da o wybodaeth am y farchnad lafur i lywio datblygiad cyrsiau. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi cynnal dadansoddiad eang o angen ar lefel strategol. Nid yw'n gwybod yn ddigon da p'un a yw'n cyflwyno'i ddarpariaeth ar y lefel gywir ac yn y lleoedd mwyaf priodol.

Mae'r bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd yr agenda medrau. Mae pob un o'r tri phrif ddarparwr wedi datblygu strategaethau medrau hanfodol. Serch hynny, nid oes gan y bartneriaeth gynllun cynhwysfawr i ddweud sut y bydd yn gwella safonau llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob un o'i dysgwyr trwy ymestyn y ddarpariaeth dros gyfnod ac mewn ystod eang o gyd-destunau. Nid yw'r bartneriaeth yn monitro nac yn arfarnu gwybodaeth am ei darpariaeth medrau yn ddigon da ac nid yw'n defnyddio'r wybodaeth i gynllunio gwelliannau chwaith. Arsylwodd arolygwyr ystod o weithgareddau yn ystod yr arolygiad. Canfuwyd nad oedd darparwyr yn ymgorffori medrau hanfodol ar draws pob maes dysgu oedolion neu fedrau hanfodol cyd-destunol yn ddigon da.

Ceir rhai enghreifftiau da o ddarpariaeth sy'n ymestyn gwybodaeth dysgwyr am Gymru a'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Nid yw'r bartneriaeth yn cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy. Hyd yma, nid yw wedi datblygu strategaeth addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang nac wedi rhannu arfer orau rhwng partneriaid.

**Addysgu: Digonol**

Barnodd arolygwyr fod yr addysgu yn dda mewn ychydig dros hanner y sesiynau a arsylwyd. Yn y sesiynau hyn, mae tiwtoriaid yn cymhwyso eu gwybodaeth bynciol yn dda i gynllunio gwersi effeithiol. Maent yn ffurfio perthynas waith dda gyda dysgwyr. Maent yn canolbwyntio'n dda ar ddiddordebau a dyheadau dysgwyr. Mae llawer o'r tiwtoriaid hyn yn defnyddio ystod eang o strategaethau a gweithgareddau addysgu sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn datblygu ystod o fedrau dysgu. Maent yn cynnig her a chymorth effeithiol, yn unol â'r angen.

Fodd bynnag, mae'r addysgu yn llai effeithiol mewn ychydig llai na hanner y sesiynau a arsylwyd. Yn y sesiynau hyn, nid yw tiwtoriaid yn cynllunio sesiynau yn ddigon da, ac mae'r sesiynau yn aml yn symud yn rhy araf. Mae'r addysgu yn aml yn cael ei arwain gan yr athro yn ormodol, ac nid yw'r sesiwn yn darparu'n ddigon da ar gyfer ystod galluoedd a diddordebau'r dysgwyr.

Mae llawer o diwtoriaid yn rhoi adborth adeiladol i ddysgwyr fel rhan o'r gwaith parhaus yn y gwersi. Mae hyn yn cynnwys herio dysgwyr i wella a datblygu eu gwaith ymhellach. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn marcio gwaith yn dda yn unol â chanllawiau achredu ac yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddysgwyr. Mae prosesau da ar waith i wirio ansawdd gwaith dysgwyr ar gyrsiau achrededig.

Fodd bynnag, mae defnydd tiwtoriaid o gynlluniau dysgu unigol i lywio datblygiad dysgwyr yn amrywio gormod. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddeall sut gallant ddefnyddio cynlluniau dysgu unigol i drefnu eu dysgu a gosod targedau defnyddiol iddyn nhw eu hunain. Maent yn helpu dysgwyr i adolygu'r targedau yn rheolaidd a gosod targedau newydd i wneud cynnydd. Yn yr achosion lleiaf effeithiol, mae tiwtoriaid yn gweld cynlluniau dysgu unigol yn feichus ac nid ydynt yn annog dysgwyr i'w defnyddio yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda i hysbysebu ei darpariaeth. Mae ganddi lyfryn cynhwysfawr, sy'n amlinellu'r cwricwlwm a gynigir ar draws y Fwrdeistref Sirol yn glir. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ymgyrchoedd cenedlaethol a gorsafoedd radio lleol yn effeithiol i farchnata ei chyrsiau a'i digwyddiadau. Mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd da o gyfryngau cymdeithasol hefyd i hyrwyddo a dathlu digwyddiadau. Mae'n cynnig ystod dda o weithgareddau rhagflas a recriwtio.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen i ddysgu arall. Fodd bynnag, mewn nifer fach o ddosbarthiadau, ni chaiff dysgwyr arweiniad digon da i'w helpu i symud ymlaen i lefelau uwch neu fathau eraill o ddysgu.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau arbenigol i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Mae'r bartneriaeth yn rhoi sylw da i hyrwyddo iechyd a lles dysgwyr. Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu. Trafodwyd yr hyfforddiant ar gyfer staff gyda'r bartneriaeth.

Mae llawer o ddysgwyr wedi cael cyfnod ymsefydlu ac maent yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael. Mae tiwtoriaid yn rhoi cymorth da i ddysgwyr, ac mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylcheddau.

Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn asesu anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon systematig pan fydd dysgwyr yn ymuno â rhaglenni. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, fel nam ar y clyw, yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt bob amser i wneud cynnydd. Nid oes proses ar waith i fonitro'r nifer sy'n manteisio ar gymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r bartneriaeth yn mesur y modd y mae hyn yn effeithio ar ddysgwyr.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae diwylliant da o gynhwysiant ar draws y ddarpariaeth. Mae partneriaid yn ymgysylltu â dysgwyr o ystod eang o grwpiau dan anfantais yn dda. Mae llawer o sefydliadau cymunedol yn cynnig ystod eang o wasanaethau sy'n eu helpu i ymgysylltu ac aros ar eu cwrs. Er enghraifft, cynigir cwnsela a chyngor am iechyd, cyllid, tai, problemau cyffuriau ac alcohol i ddysgwyr. Mae'r bartneriaeth wedi cynnal dadansoddiad o nodweddion dysgwyr ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i dargedu grwpiau penodol o ddysgwyr.

Gwelodd arolygwyr fod dysgwyr o wahanol gefndiroedd yn cael eu cynnwys yn dda mewn dosbarthiadau. Mae'r awdurdod lleol yn ymdrin â materion amrywiaeth yn

briodol gyda dysgwyr yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Fodd bynnag, er bod gan yr awdurdod lleol bolisi cyfle cyfartal, nid yw'n monitro'i effaith. Nid oes gan y bartneriaeth bolisi cyfle cyfartal cyffredinol.

Yn gyffredinol, mae amgylcheddau dysgu yn addas at eu diben, yn groesawgar ac yn cynnwys offer da. Mae tiwtoriaid a staff mewn amgylcheddau dysgu yn gyfeillgar a chroesawgar. O ganlyniad, mae dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus mewn amgylcheddau cymunedol wrth iddynt gymryd eu camau cyntaf yn ôl i addysg neu hyfforddiant. Mae cyfleusterau da yn y rhan fwyaf o ganolfannau cymunedol a ddefnyddir i gyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned, a rhai ohonynt yn rhagorol. Er enghraifft, mae'r Ganolfan Hyfforddi yng Nglyn-nedd yn cynnig caffi gyda chyfleuster galw heibio am ddim technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a mynediad at Wi-Fi. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda i wneud yn siŵr bod dysgu ar gael yn agos at gartrefi pobl. Mae'n rhoi cymorth da i ddarparwyr y sector gwirfoddol i gyflwyno dysgu mewn cymunedau ynysig. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae'r adeiladau yn wael ac nid yw'r cyfleusterau i ddysgwyr yn addas ar gyfer y dysgu sy'n digwydd. Mae arwyddion dwyieithog yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau.

Yn gyffredinol, caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr gyfle i wneud defnydd da o adnoddau dysgu cyfoes, gan gynnwys offer TGCh o ansawdd da i gefnogi'r dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y bartneriaeth gynllun strategol sy'n rhoi ystyriaeth dda i'r cyd-destun a'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r cynllun yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer newid ac adfywio. Mae'r cynllun yn amlinellu amcanion ar gyfer gwaith y bartneriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn defnyddio'i hamcanion yn ddigon da i osod targedau neu gerrig milltir sy'n helpu'r bartneriaeth i fonitro'r cynnydd a wna. Er enghraifft, nid yw'r bartneriaeth yn arfarnu pa mor dda y mae dysgwyr yn symud ymlaen o gyrsiau sy'n eu hannog i ddychwelyd i ddysgu i gyrsiau sy'n eu helpu i wella eu rhagolygon cyflogaeth. Nid yw'r bartneriaeth yn gosod targedau ar gyfer cyfran y dysgwyr sy'n symud ymlaen i weithgareddau yn gysylltiedig â chyflogaeth.

Mae Gweithrediaeth y Rhwydwaith Dysgu Oedolion yn bartneriaeth effeithiol sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes yr awdurdod lleol, Pennaeth Coleg Castell-nedd Port Talbot a Chyfarwyddwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r arweinwyr hyn yn rhannu barn glir am flaenoriaethau'r bartneriaeth yn dda. Maent yn hyrwyddo gwaith y bartneriaeth yn llwyddiannus mewn ystod o fforymau. Mae'r coleg a'r awdurdod lleol wedi gweithio'n dda i gryfhau rheoli'r bartneriaeth trwy gyd-ariannu swydd cydlynydd y bartneriaeth. Mae'r cydlynydd yn gweithio'n dda gyda'r ystod o bartneriaid i gynllunio'r cwricwlwm a sicrhau darpariaeth.

Mae gan y Weithrediaeth ystod dda o grwpiau rheoli y maent yn dirprwyo gweithredu'r bartneriaeth iddynt. Mae'r grwpiau hyn yn gwneud yn siŵr bod cyfathrebu da rhwng yr ystod eang o bartneriaid. Mae hyn yn helpu partneriaid i weithio gyda'i gilydd yn dda i gael cyllid ac adnoddau o'r tu allan i'r bartneriaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno eitemau agenda penodedig yn ei chyfarfodydd yn ddiweddar. Golyga hyn y gall y sector gwirfoddol roi gwybod i'r bartneriaeth am ddatblygiadau newydd a rhannu arfer orau yn fwy effeithiol.

Nid yw dadansoddiad y bartneriaeth o anghenion dysgwyr yn ddigon trylwyr. Er enghraifft, nid oes gan y bartneriaeth system gyson ar gyfer asesu anghenion medrau sylfaenol dysgwyr. Nid yw'r bartneriaeth yn defnyddio systemau i fesur effaith ei darpariaeth chwaith, fel dosbarthiadau medrau sylfaenol. Mae'r bartneriaeth wedi colli'r cyfle i fabwysiadu'r arfer dda a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol i olrhain cynnydd dysgwyr mewn ysgolion, nodi tangyrhaeddiad a thargedu gweithgareddau gwella ac ymyrraeth yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys yr holl bartneriaid yn ei phroses hunanasesu ac yn llunio adroddiad hunanasesu blynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r broses yn effeithiol o ran dadansoddi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio gormod ar y meysydd sy'n perfformio orau ac nid yw'n trafod y meysydd dysgu gwannach yn ddigonol. Nid yw'r bartneriaeth yn arfarnu ystadegau am gyflawniad dysgwyr na data arall yn ddigon da nac yn cynnwys tystiolaeth ategol.

Mae'r bartneriaeth wedi creu Cynllun Datblygu Ansawdd i gyflwyno gwelliannau ar gyfer dysgwyr ac mae wedi sefydlu is-grŵp sy'n gyfrifol am wella ansawdd y gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r grŵp ansawdd yn monitro gweithredu'r Cynllun Datblygu Ansawdd yn ddigon da. Mae'r bartneriaeth wedi rhoi trefniadau newydd ar waith yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon.

Nid yw'r bartneriaeth wedi rhoi argymhellion ar waith yn llwyddiannus o'r arolygiad blaenorol ynglŷn â defnyddio cynlluniau dysgu unigol, a gwella addysgu a dysgu. Mae hyn wedi cael effaith andwyol ar gynnydd dysgwyr.

Nid yw system y bartneriaeth ar gyfer gwella addysgu a dysgu yn ddigon trylwyr. Nid yw arsylwadau'r bartneriaeth o addysgu a dysgu yn canolbwyntio'n ddigon da ar y dysgu a'r cynnydd a wna myfyrwyr. Nid yw'r bartneriaeth yn cymedroli arsylwadau addysgu a dysgu yn effeithiol i safoni barnau a helpu tiwtoriaid i wella ar draws y bartneriaeth. Canfu arolygwyr nad yw safon yr addysgu wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r grŵp Gweithredol wedi cytuno ar siarter ansawdd yn ddiweddar. Mae'r siarter yn darparu fframwaith i'r holl bartneriaid gydweithio i wella ansawdd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i bennu effaith y siarter ar ansawdd gwaith y bartneriaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi cytuno ar strategaeth ymglymiad dysgwyr yn ddiweddar. Mae rhai enghreifftiau da o weithgarwch Llais y Dysgwr hefyd sydd wedi helpu dysgwyr i gynllunio eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau hyn wedi cyfrannu at wella'r ddarpariaeth eto.

Mae cydlynydd y bartneriaeth yn cyfrannu'n weithredol at ddatblygiad y sector dysgu oedolion yn y gymuned trwy weithgorau penodol, gan gynnwys adolygu'r system cynllunio ac ariannu genedlaethol. Mae tiwtoriaid yn cyfarfod yn ffurfiol bob tymor i rannu arfer orau. Mae'r cyfarfod hwn yn fforwm defnyddiol i diwtoriaid drafod addysgu a dysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaid yn cydweithio'n dda i drefnu'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth. Mae uwch swyddogion strategol yn rhoi arweiniad cryf i swyddogion y bartneriaeth. Mae gan y swyddogion hyn gysylltiadau da â'r bwrdd gwasanaethau lleol, y maent yn eu defnyddio'n briodol i ddylanwadu ar flaenoriaethau'r rhwydwaith dysgu oedolion ac maent yn ymgysylltu â phartneriaid eraill mewn dysgu oedolion yn y gymuned. Mae partneriaid yn ymddiried llawer yn ei gilydd ac maent yn cydweithredu'n dda â'i gilydd i gynllunio'r ddarpariaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi cytuno ar gynllun strategol ac mae'n defnyddio'r cynllun yn briodol i reoli'r cwricwlwm a chwmpas y ddarpariaeth. Mae partneriaid yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o sefydliadau lleol i gynllunio'r cwricwlwm, recriwtio dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Fodd bynnag, nid yw partneriaid wedi cytuno ar dargedau strategol allweddol i'w helpu i fesur llwyddiant eu gwaith.

Mae gan y bartneriaeth strwythur cynhwysol i reoli ei waith ac ar gyfer cynnwys ystod eang o randdeiliaid. Mae wedi sefydlu strwythur grwpiau ac is-grwpiau rheoli gweithredol. Mae gan yr holl grwpiau ac is-grwpiau gylchoedd gorchwyl clir. Mae'r holl is-grwpiau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl randdeiliaid wrth wneud eu gwaith.

Mae partneriaid yn cydweithio'n dda i sicrhau a chydgyfrannu adnoddau ar gyfer y rhwydwaith dysgu oedolion. Mae'r ddau brif bartner yn cydariannu rheoli a chydlynu'r bartneriaeth. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol i wneud yn siŵr bod adeiladau o ansawdd da ar gyfer dysgu a darpariaeth ar gael mewn ardaloedd allweddol ar draws y Fwrdeistref Sirol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda i ddenu cyllid o amrywiaeth o ffynonellau i ymgymryd â'i gwaith. Mae uwch arweinwyr wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau dyfodol dysgu oedolion. Maent yn gweithio'n dda gydag ystod o randdeiliaid i sicrhau parhad y ddarpariaeth. Golyga hyn y gall y bartneriaeth gyflwyno darpariaeth dysgu oedolion mewn cymunedau ynysig a difreintiedig. Mae'r bartneriaeth yn dyrannu cyllid yn unol â'i blaenoriaethau yn dda yn ei chynllun strategol.

Mae partneriaid yn cydweithio'n dda i farchnata cyrsiau a gweithgareddau dysgu. Mae gan y bartneriaeth gyfleuster defnyddiol i gofrestru a thalu ar-lein. Mae gan bartneriaid drefniadau prisio clir. Mae grŵp ffioedd y bartneriaeth yn gweithio i gytuno ar ffioedd i ddosbarthiadau ar draws yr holl ddarparwyr ar ran y bartneriaeth. Mae partneriaid yn cydweithio'n dda i roi cymorth ariannol i ddysgwyr sy'n gweddu i feini prawf penodol. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi ystyried trefniadau cyllid amgen ar gyfer cyrsiau y mae dysgwyr wedi eu mynychu ers sawl blwyddyn ond nad ydynt yn dod o fewn y meysydd blaenoriaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i wasgariad daearyddol y ddarpariaeth. Mae'r cyngor yn gweithredu cynllun da ar gyfer trosglwyddo asedau. Mae hyn yn cynorthwyo grwpiau cymunedol i ddefnyddio adeiladau nad oes eu

hangen ar yr awdurdod lleol mwyach. Er enghraifft, mae prosiect STRIDES yn gweithredu o ganolfan gymunedol a oedd yn eiddo gynt i'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi asesu addasrwydd ei hadeiladau a'i chyfleusterau ar gyfer y gweithgareddau y mae'n eu cyflwyno.

Yn gyffredinol, caiff dysgwyr gyfle i wneud defnydd da o adnoddau TGCh. Mae swyddog datblygu technegol y bartneriaeth yn gweithio'n dda gyda swyddog datblygu'r cwricwlwm i ddefnyddio technolegau newydd ar gyfer dysgu. Mae'r bartneriaeth yn darparu iPads i gefnogi'r dysgu ac i ddysgwyr eu defnyddio lle mae cysylltedd â'r rhyngrwyd yn wael.

Mae mwyafrif y staff yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol. Mae'r bartneriaeth yn cyfathrebu'n dda gyda thiwtoriaid rhan-amser i rannu adnoddau, syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio systemau ar y rhyngrwyd.

Mae'r bartneriaeth yn cynllunio hyfforddiant staff ar gyfer tiwtoriaid. Mae wedi cyflwyno hyfforddiant i fwy na hanner ei staff mewn defnyddio technolegau newydd. Mae'r bartneriaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o gyllid sydd ar gael ar gyfer datblygu Medrau Hanfodol. Mae'n darparu sesiynau ymwybyddiaeth o fedrau a hyfforddiant i gyflwyno medrau hanfodol ar gyfer staff. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o anghenion hyfforddiant ac nid oes ganddi feini prawf i arfarnu effaith yr hyfforddiant ar addysgu a dysgu.

Nid yw'r bartneriaeth yn arfarnu effaith adnoddau ar ddeilliannau dysgwyr yn ddigon da. Mae safonau'n ddigonol ac mae'r tîm arolygu yn barnu bod y bartneriaeth yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Cynhaliodd Estyn arolwg dysgwyr ychydig cyn yr arolygiad o'r bartneriaeth. Dychwelwyd yr holiadur yn llwyddiannus gan bedwar cant a phedwar deg pedwar o ddysgwyr, ac atebodd y rhan fwyaf ohonynt y rhan fwyaf o'r cwestiynau. Roedd y canfyddiadau o gymorth i Estyn gael syniad o farnau dysgwyr a'u profiad o'r ddarpariaeth a gyflwynir yn ardal y bartneriaeth ar hyn o bryd.

Mae bron yr holl ddysgwyr o'r farn bod cymryd rhan mewn dysgu wedi eu helpu i wella eu medrau bywyd ac mae'r holl ddysgwyr yn ystyried y bydd dysgu yn eu helpu i gyflawni eu nodau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod cymryd rhan mewn dysgu wedi eu helpu i gael eu cynnwys yn eu cymuned. Byddai bron pob un o'r dysgwyr yn argymell eu darparwr dysgu i bobl eraill. Mae bron pob dysgwr yn mwynhau eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn credu eu bod wedi cael gwybodaeth dda pan oeddent yn dewis pa gwrs i'w ddilyn. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn credu eu bod wedi cael cyngor da am yr hyn y gallent ei wneud pan fyddant yn gorffen eu rhaglen ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn credu eu bod wedi cael cymorth personol da gan eu tiwtoriaid, yn enwedig yn ystod wythnosau cyntaf eu rhaglen ddysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid oedd dysgwyr o'r farn eu bod wedi cael cymorth personol da gan eu tiwtoriaid.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod staff yn dangos parch at bob dysgwr ac yn gwrando ar eu safbwyntiau. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae dysgwyr o'r farn nad yw staff yn dangos parch atynt nac yn gwrando ar eu safbwyntiau. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr o'r farn nad yw staff yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o wahanol gefndiroedd a gweithredu yn unol â'u safbwyntiau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo bod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd da.

Mae bron pob un o'r staff yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da, ac fe gaiff bron pob un o'r dysgwyr gyfle i wneud defnydd digonol o lyfrau ac offer i'w helpu i wneud eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o'r farn bod staff yn rhoi digon o gyfle iddynt ddewis dysgu naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr rhan-amser yn credu bod hyn yn wir.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Liam Kealy | Arolygydd Cofnodol |
| Lin Howell | Arolygydd Tîm |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Rachael Bubalo | Arolygydd Tîm |
| Robert Parkin | Arolygydd Cymheiriaid |
| Denise Olander | Arolygydd Cymheiriaid |
| Kevern Kerswell | Arolygydd Cymheiriaid |
| Cathryn Sanders | Arolygydd Cymheiriaid |
| Phil Southard | Enwebai’r Darparwr |